YSTADEGAU, DOGFENNU

# Trosolwg o'r farchnad lafur: Mawrth 2026 (canlyniadau pennawd)

Data misol ar gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 19 Mawrth 2026

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 19 Mawrth 2026

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html#199823)

**Enillion misol gweithwyr cyflogedig o Wybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill** (https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html#199825)

**Prif ddangosyddion y farchnad lafur, y 3 mis hyd at fis Ionawr 2026** (https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html#199827)

**Gwybodaeth bellach** (https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html#199829)

**Manylion cyswllt** (https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html#199831)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

Mae'r pennawd hwn yn rhoi crynodeb o'r ystadegau diweddaraf sy'n ymwneud â marchnad lafur Cymru, gan gynnwys ystadegau Gwybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill gan Gyllid a Thollau EF (CThEF) ac o'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS).

# Enillion misol gweithwyr cyflogedig o Wybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Chyllid a Thollau EM (CThEM) yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru ar:

- gweithwyr cyflogedig
- cyflog cymedrig
- tâl cyfanredol
- amcangyfrifon un mis ar gyfer tâl canolrifol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Gweithwyr cyflogedig

### Ffigur 1: gweithwyr Cyflogedig, Cymru, mis Chwefror 2021 i fis Chwefror 2026




Disgrifiad o ffigur 1: siart llinell sy'n dangos fod tuedd yn y nifer o weithwyr cyflogedig yng Nghymru wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn cynnydd cyson ers 2021.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o PAYE RTI, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a CThEF.

Mae amcangyfrifon cynnar ar gyfer mis Chwefror 2026 yn dangos bod nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru wedi cynyddu o 1,000 (0.1%) dros y mis i 1.31 miliwn.

Ar lefel y Deyrnas Unedig (DU), dangosodd amcangyfrifon cynnar ar gyfer mis Chwefror 2026 gynnydd misol o 20,200 (0.1%).

Mae dadansoddiadau manwl eraill o **weithwyr cyflogedig gan gynnwys yn ôl awdurdod lleol, yn ôl oedran ac yn ôl sector gan y SYG** (https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/previousReleases).


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Prif ddangosyddion y farchnad lafur, y 3 mis hyd at fis Ionawr 2026

**Mae cyfyngau hyder ar gyfer y prif gyfraddau marchnad lafur ar gael ar wefan y SYG** (https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/samplingvariabilityandrevisionssummaryforregionallabourmarketstatisticss02). Mae'r data diweddaraf yn dangos mai'r unig newid ystadegol arwyddocaol ar gyfer prif ddangosyddion y farchnad lafur yng Nghymru yn y tri mis hyd at fis Ionawr 2026 oedd y newid blynyddol yn y gyfradd diweithdra. Nid oedd yr holl newidiadau chwarterol a blynyddol eraill ar gyfer prif ddangosyddion y farchnad lafur yn ystadegol arwyddocaol sy'n awgrymu bod y rhain yn annhebygol o adlewyrchu newid gwirioneddol yn y data.

## Cyfradd cyflogaeth

### Ffigur 2: cyfradd cyflogaeth, y 3 mis hyd at fis Ionawr 2016 i'r 3 mis hyd at fis Ionawr 2026




Disgrifiad o ffigur 2: siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd cyflogaeth yn y DU yn gyffredinol yn uwch nag yng Nghymru dros y 10 blynedd diwethaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Arolwg o'r Llafurlu

**Cymru**

Roedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn 71.9%. Mae hyn i fyny 1.1 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 2.1 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

**DU**

Roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer y DU yn 75.1%. Mae hyn i fyny 0.2 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 0.1 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

## Cyfradd diweithdra

### Ffigur 3: cyfradd diweithdra, y 3 mis hyd at fis Ionawr 2016 i’r 3 mis hyd at fis Ionawr 2026




Disgrifiad o ffigur 3: siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd diweithdra wedi dilyn tuedd debyg yng Nghymru ac yn y DU dros y 10 blynedd diwethaf er bod y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

gyfres ar gyfer Cymru yn fwy anwadal.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Arolwg o'r Llafurlu

### Cymru

Roedd y gyfradd diweithdra yng Nghymru yn 3.5%. Mae hyn i lawr 2.6 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr 1.8 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

### DU

Roedd cyfradd diweithdra y DU yn 5.2%. Mae hyn i fyny 0.1 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 0.8 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

## Cyfradd anweithgarwch economaidd

### Ffigur 4: cyfradd anweithgarwch economaidd, y 3 mis hyd at fis Ionawr 2016 i’r 3 mis hyd at fis Ionawr 2026




Disgrifiad o Ffigur 4: siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd anweithgarwch economaidd wedi gostwng yn gyffredinol yn y DU dros y 10 blynedd diwethaf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

ond mae wedi cynyddu ar y cyfan ers y misoedd cynnar yn 2020. Yng Nghymru, mae'r gyfradd wedi amrywio dros y cyfnod hwn ond yn gyffredinol mae'n parhau i fod yn uwch na chyfradd y DU.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Arolwg o'r Llafurlu

**Cymru**

Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn 25.4%. Mae hyn i fyny 0.9 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr 0.6 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

**DU**

Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer y DU yn 20.7%. Mae hyn i lawr 0.3 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr 0.8 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

## Gwybodaeth bellach

**Mae'r SYG wedi cyhoeddi amcangyfrifon Arolwg o’r Llafurlu wedi'u hail-bwysoli** (https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/impactofreweightingonlabourforcesurveykeyindicators/december2024) ar gyfer Cymru ym mis Rhagfyr 2024 am y cyfnod o Ionawr i Fawrth 2019, sydd wedi achosi newid sylweddol yn y data.

Mae'r SYG wedi nodi bod heriau o ran cynnal cyfraddau ymateb ar gyfer yr Arolwg o’r Llafurlu yn parhau i effeithio ar ansawdd data, er gwaethaf yr **ail-bwysoliad o’r amcangyfrifon ym mis Rhagfyr 2024 (SYG)** (https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/impactofreweightingonlabourforcesurveykeyindicators/

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

december2024?_gl=1*1w8zjik*_ga*MTMyNTgxOTA1OC4xNzM0MzQ5NjU2*_ga_W804VY6YKS*MTczNDM0OTY1NS4xLjAuMTczNDM0OTY1NS42MC4wLjA.*_ga_80DKNRDN15*MTczNDM0OTY1NS4xLjAuMTczNDM0OTY1NS4wLjAuMA..). Bydd ystadegau'r farchnad lafur sy'n seiliedig ar Arolwg o’r Llafurlu yn parhau i gael eu labelu fel **ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu (Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau)** (https://osr.statisticsauthority.gov.uk/policies/official-statistics-policies/official-statistics-in-development/) nes bydd adolygiad pellach ac rydym yn parhau i argymell gofal wrth ddehongli'r data hwn.

Byddem yn argymell defnyddio data’r LFS ochr yn ochr â’r tueddiadau mewn mesurau eraill yn y farchnad lafur, yn enwedig Swyddi’r Gweithlu (mesur chwarterol o swyddi), nifer y bobl sy’n hawlio budd-daliadau sy’n gysylltiedig â diweithdra) a’r data RTI gan CThEF (nifer y gweithwyr ar y gyflogres) i gael darlun cliriach o’r farchnad lafur yng Nghymru.

## Manylion cyswllt

Ystadegau’r Farchnad Lafur a Sgiliau
E-bost: **ystadegau.marchnadlafur@llyw.cymru** (mailto:ystadegau.marchnadlafur@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2026-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).